O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

**2012 Rhif 2453 (Cy. 267) (C. 96)**

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

# Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 5) 2012

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r pumed gorchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("y Mesur").

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i adran 11 o'r Mesur ac eithrio is-adrannau (3) a (4).

Mae adran 11(1) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod lleol asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gyfer plant yn ei ardal.

Mae adran 11(2) yn darparu bod Gweinidogion Cymru drwy reoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer y materion y mae'n rhaid i awdurdod lleol roi ystyriaeth iddynt wrth asesu digonolrwydd y cyfleoedd chwarae yn ei ardal; y dyddiad erbyn pryd y dylai asesiad cyntaf gael ei gyflawni; amlder asesiadau; adolygu asesiadau; a chyhoeddi asesiadau.

Mae adran 11(5) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i anghenion plant sy'n anabl ac i anghenion plant o wahanol oedrannau.

Mae adran 11(6) yn darparu diffiniadau o "chwarae" a "digonol".

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN BLAENOROL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 wedi cael eu dwyn i rym gan Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 57 | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| Adran 58(1)–(5), (6)(a), (7)–(14) | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| Adrannau 59–65 | 1 Medi 2010 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2010/1699 (Cy.160) (C.87) |
| Adrannau 19–56 | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123) |
| Adran 72 ac Atodlen 1 paragraffau 1-18, paragraffau 21-28 | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123) |
| Adran 73 ac Atodlen 2 (i'r graddau y maent yn ymwneud â Deddf Plant 1989, Deddf Addysg 2002 a Deddf Gofal Plant 2006) | 1 Ebrill 2011 | O.S. 2010/2582 (Cy.216) (C.123) |
| Adran 2 (i'r graddau y mae'n gymwys i awdurdodau Cymreig) | 10 Ionawr 2011 | O.S. 2010/2994 (Cy.248) (C.134) |
| Adrannau 4, 5, 6, 17, 18 | 10 Ionawr 2011 | O.S. 2010/2994 (Cy.248) (C.134) |
| Adrannau 58(2), 60(1), 62(2), a 63 i'r graddau nad ydynt eisoes | 27 Ionawr 2012 | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |

| | | |
|---|---|---|
| mewn grym | | |
| Rhan 3 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) ac eithrio paragraffau (b), (c), a (d) o adran 58(6) | 28 Chwefror 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| Rhan 3 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) ac eithrio paragraffau (b), (c), a (d) o adran 58(6) | 31 Mawrth 2012 (mewn perthynas ag ardaloedd awdurdod lleol penodedig) | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |
| Adran 12 | 31 Ionawr 2012 | O.S. 2012/191 (Cy.30) (C.5) |

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 2453 (Cy. 267) (C. 96)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 5) 2012

*Gwnaed* *22 Medi 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 75(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 5) 2012.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

### Y diwrnod penodedig

**2.** 1 Tachwedd 2012 yw'r diwrnod penodedig i adran 11 o'r Mesur (dyletswyddau awdurdod lleol ynghylch cyfleoedd chwarae i blant) ddod i rym ac eithrio is-adrannau (3) a (4).

(**1**) 2010 mccc 1.

*Gwenda Thomas*

Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

22 Medi 2012